Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Miss Morfudd E. Jones (Llannefydd) ddechrau'r wythnos hon, un a fu'n ffyddlon iawn ac yn gefnogol i weithgareddau'r eglwys tra'n byw yn yr ardal honno. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i brawd Alun E. Jones (Llannefydd) a fu mor driw iddi ar hyd y blynyddoedd. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drosto mewn ffordd arbennig ac y bydd, ynghanol ei alar a'i hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddo. Yr un modd, cydymdeimlwn â Gwen Evans (Saron) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mrs Margaret Roberts, a hynny ychydig fisoedd yn unig wedi iddi golli ei brawd. Gweddïwn y bydd eto yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu.

Cofiwn yn ein gweddïau hefyd am Margaret J. Davies (Llansannan) sydd erbyn hyn yn cael gofal yn Ysbyty Rhuthun, a hefyd Llinos M. Roberts (Llansannan) a Gwyndaf Evans (Saron), y ddau wedi treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd ond sydd bellach wedi cael dod adref. Cyflwynwn hwy, ac eraill o'n plith sy'n derbyn triniaethau gwahanol, i ofal yr Arglwydd gan weddïo y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwynant Jones (Llansannan) fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn y dyddiau nesaf, ac i Beryl Morris (Cefn Berain) sydd hefyd newydd ddathlu penblwydd arbennig!

Cyrsiau Coleg y Bala

Dyma'r cyrsiau sydd wedi eu trefnu yng Ngholeg y Bala dros y misoedd nesaf:

⇒ **Disglair** (Mehefin 21ain– 22ain): Cyfle i ferched o bob oed fwynhau penwythnos o hwyl, cwmni da a chyfoeth gair Duw. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, gofynnir i chi gofrestru **erbyn bore Llun, Mehefin 17eg**, os gwelwch yn dda.

⇒ **Cwrs Ieuenctid** (Gorffennaf 29ain– Awst 2il): Gwersyll haf i blant 11-15 oed yn llawn gemau, crefftau, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, s'mores o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Byddwn hefyd yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw.

⇒ **Anhrefn Awst** (Awst 12fed–15fed): Gwersyll haf i blant 8-11 oed. Bydd gemau gwirion, canu, storïau o'r Beibl, crefft, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, s'mores o amgylch y tân, trip a llawer mwy.

⇒ **Souled Out** (i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc): Awst 17eg –22ain

Medrwch archebu lle ar y wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg ond os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, plîs cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth hon.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16 Mehefin 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Tangnefeddwyr

Tydi dod â chymod a heddwch rhwng pobl ddim yn waith hawdd. Cofiaf ryw dro gael fy hun ynghanol dadl rhwng dau. Tydw i ddim yn gwybod sut y digwyddodd ond cefais fy hun dan ymosodiad gan y ddwy ochor. Pan rydym mewn sefyllfa felly mae'n hawdd ceisio achub ein cam a tharo nôl. Ond rhaid i bobl sydd am wneud heddwch fod yn bobl heddychlon.

Heddwch sy'n deillio o fod mewn perthynas iawn yw gwir heddwch. Gallwch gael pobl i beidio ag ymladd ond nid yw hynny'n dod â heddwch. Rydym yn gwybod am rai nad ydynt yn ymladd â'u dyrnau ond mae eu tafodau yn finiog fel cyllyll. Mae eraill nad ydynt yn ymladd yn gyhoeddus ond eto nid ydynt edrych ar ei gilydd nac yn yngan gair wrth ei gilydd. Nid heddwch mo hynny. Daw gwir heddwch wrth ail-adeiladu perthynas.

Ffordd Iesu Grist o ddelio â drygioni a'i rym oedd gyda chariad a maddeuant. Daeth Iesu i ganol byd sydd mewn rhyfel gyda Duw ac â'i hunan a chynnig cymod, cariad a thangnefedd i bob un oedd yn fodlon ei dderbyn.

"— mae wedi gwneud heddwch rhyngon ni ag o'i hun drwy beth wnaeth y Meseia. Ac mae wedi rhoi'r gwaith i ni o rannu'r neges gyda phobl eraill. [19] Ydy, mae Duw wedi sicrhau heddwch rhyngddo fo'i hun â'r byd drwy beth wnaeth y Meseia. Dydy o ddim yn dal methiant pobl yn eu herbyn nhw! Ac mae wedi rhoi i ni y gwaith o ddweud am hyn wrth bobl." (2 Corinthiaid 5:18-19)

Daw'r heddwch Cristnogol o ddechrau a datblygu perthynas â Duw yn Iesu Grist. Daw hyn trwy weddi edifeiriol a myfyrdod yn ei air, sef y Beibl. Ond mae'n rhaid hefyd i'r un sy'n darganfod yr heddwch hwn geisio ei ledaenu yn ei gymdeithas ac yn y byd y mae'n byw ynddo. Pobl sy'n ceisio cymod a heddwch yw dilynwyr Iesu Grist; heddwch gyda Duw a heddwch rhwng pobl â'i gilydd. Meddai Iesu *"Mae'r rhai sy'n hyrwyddo heddwch wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu galw'n blant Duw."* (Mathew 5:9)

Profiad rhyfeddol a gwerthfawr yw'r berthynas heddychlon sydd gan Iesu Grist i'w gynnig i chi a fi ac i'r byd. Byddwn yn dangnefeddwyr gyda'r Iesu.

Y Parch. R. O. Roberts

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (26ain), plîs.

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mehefin 16eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. R. O. Roberts. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan a chynhelir Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10:15. Hefyd, yn dilyn yr oedfa yn Llansannan, bydd cyfarfod byr i newid swyddogion y Gymdeithas. Dewch â syniadau newydd ar gyfer rhaglen y tymor nesaf, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes ac Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

Dydd Llun, Mehefin 17eg

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565 / eirian.roberts@ebcpcw.cymru).

Dydd Mawrth, Mehefin 18fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Saron am 7:30 yr hwyr.

Dydd Mercher, Mehefin 19eg

- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 7:00 pryd y bydd y Parchedig A. Brian Evans yn ein harwain ar y testun "Y ffordd ymlaen, beth nesaf?"

Dydd Gwener, Mehefin 21ain

- **Noson Rownderi a Barbeciw** wedi ei threfnu gan aelodau Capel Llannefydd ar y Cae Chwarae am 6:30 yr hwyr. Bydd yr elw at y Samariaid.

Dydd Sul, Mehefin 23ain

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Gymun yn Henllan** am 9:30 ac **Oedfa yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd yr Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd. Yn dilyn yr oedfa yn Henllan, cynhelir eu pererindod blynyddol a byddant yn ymweld â Ffynnon Dyfnog yn Llanrhaeadr ac yna bydd cyfle i gymdeithasu dros ginio yn y Lodge. Enwau i Rhian (813870 neu 07796 757668) erbyn dydd Sul, Mehefin 16eg, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.

Dydd Llun, Mehefin 24ain

- **Clwb Plant Pant Pastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.

Dydd Mawrth, Mehefin 25ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sul, Mehefin 30ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Rhodri Glyn. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **Oedfa'r Fro** yng Nghapel Llannefydd am 6:00 yr hwyr gydag Alun Jones yn arwain a'r Parch. Rhodri Glyn yn pregethu.

Rhaghysbysiad

- Mae posibilrwydd (os ca nhw visa i drafaelio) y bydd Côr Synod Mizoram yn ymweld â Chymru dechrau Gorffennaf gan ymweld ag Eisteddfod Llangollen, a'r Gymanfa Gyffredinol, a bydd cyngerdd arbennig ar nos Iau, Gorffennaf 11eg yn y Capel Mawr, Dinbych. Cawn gadarnhad yn nes ymlaen, ond cadwch y dyddiad yn rhydd!

Ethol blaenoriaid

Llawenydd mawr yw cael cyhoeddi fod pump o'n plith wedi eu hethol i wasanaethu fel blaenoriaid yn eu heglwysi ac yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd, sef Eleri Lloyd Jones (Groes); Elinor Owen ac Alun Jones (Eglwys Unedig Llansannan); ac Eleri Davies a Dwynwen Davies (Y Waen, Nantglyn). Diolchwn am barodrwydd y pump i dderbyn yr alwad a dymunwn fendith Duw arnynt wrth iddynt ymroi i'r gwaith. Mewn oedfa gyhoeddus yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan ar nos Sadwrn, Gorffennaf 13eg am 6:00 yr hwyr, bydd y merched yn cael eu hordeinio ac Alun yn cael ei groesawu fel blaenor yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd (gan iddo gael ei ordeinio yn flaenor yn Henaduriaeth Dyffryn Conwy yn 1998).

Yn yr un cyfarfod, bydd yr Henaduriaeth yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr nifer o flaenoriaid, fydd yn cynnwys o'r Ofalaeth hon y Parch. Aneurin Owen (Llansannan); Bryn H. Jones, a Lloyd a Heulwen Edwards (Groes); a Geraint Lloyd (Peniel gynt) sydd wedi rhoi 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenoriaid. Diolchwn ninnau yn gywir iawn iddynt am eu hymroddiad a'u gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.